

No.

CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 5 Ionawr, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, S. Sivagnanam, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr I. Buckley, E. Goodjohn and Dr. I.J. Johnson.

C173 CYHOEDDIAD -

Croesawodd yr Arweinydd bob plaid i gyfarfod y Cabinet gan atgoffa pawb a oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac y caiff y recordiad hwn ei archifo ar gyfer gwyllo yn y dyfodol.

Gofynnodd i'r holl gyfranogwyr 'dawelu' eu hunain pan nad oeddent yn siarad er mwyn osgoi unrhyw sŵn cefndir pan oedd cyfranogwyr eraill yn siarad, a dywedodd, pe bai cyfranogwr am siarad, y dylai godi ei law (i'w gweld ar y sgrin) neu ddefnyddio'r swyddogaeth 'codi llaw'.

Gofynnwyd i'r Aelodau sicrhau bod pob dadl yn cael ei chodi ar lafar ac nid trwy'r swyddogaeth 'sgwrsio' er mwyn y recordiad. Gellid defnyddio'r swyddogaeth 'sgwrsio' i dynnu sylw at unrhyw faterion technegol a/neu i gael sylw'r Cadeirydd neu Swyddog y Gwasanaethau Democraataidd.

C174 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd M.R. Wilkinson

C175 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

C176 CYNIGION CYLLIDEB TERFYNOL Y CYFRIF REFENIW TAI (CRT) 2023/24 A PHENNU RHENTI 2023/24 (AG/BA) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd pennu cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 a phennu'r rhenti a'r

No.

taliadau gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn rent sydd i ddod yn dechrau ar 1 Ebrill, 2023.

Roedd y CRT yn gyfrif wedi'i glustnodi a gafodd ei hunan-ariannu'n bennaf gan renti Anheddau'r Cyngor ac mae gwariant yn cynnwys staffio i reoli darpariaeth, costau atgyweirio a chynnal a chadw'r stoc dai, costau ariannu cyfalaf i wasanaethu'r cyfraniadau dyled a referniw tuag at y Rhaglen Gyfalaf gan gynnwys datgarboneiddio a datblygiadau newydd.

Nododd yr adroddiad hefyd y rhenti a'r taliadau gwasanaeth arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod sef 2023/24. Fel rhan o Ddeddf Rhentu Cartrefi Cymru, roedd gofyn i'r Cyngor roi 2 fis o rybudd am unrhyw gynnydd mewn Rhenti'r Cyngor i Denantiaid y Cyngor.

Wrth bennu lefel y rhent ar gyfer 2023/24 roedd y Cyngor wedi sicrhau ei fod wedi cydymffurfio â'r Polisi ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (LIC) ar 17 Tachwedd 2022. Roedd LIC wedi pennu'r cynnydd caniatadwy mwyaf ar 6.5% ar gyfer 2023/24.

Cynigiodd y Cyngor gynyddu ei rent 5.5% ar gyfartaledd, 1% yn is na'r cynnydd caniatadwy mwyaf a bennwyd gan LIC. Oherwydd Covid-19, ataliodd LIC Fandiau Rhent Targed yn 2020 a rhoi ffurflen fonitro hunanardystio yn eu lle.

Gwnaethpwyd yn ofynnol gan LIC i bob Awdurdod Lleol â stoc dai a gedwir gyflwyno Cynllun Busnes Tai 30 mlynedd blynyddol addas at y diben a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo ar 19 Ionawr 2023 Roedd yn y Cynllun ragolwg ariannol manwl ar ffurf model ariannol 30 mlynedd. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Busnes Tai oedd 31 Mawrth 2023.

Adlewyrchodd y Rhaglen Wella Tai gynigion uchelgeisiol i fuddsoddi mewn llety newydd i fynd i'r afael â phrinder dybryd tai cymdeithasol yn yr ardal. Ceisiodd y Rhaglen Wella hefyd ddatgarboneiddio'r stoc dai bresennol drwy fuddsoddi mewn ffynonellau ynni amgen, insiwleiddio a mentrau effeithlonrwydd ynni eraill.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai'r Cynllun Busnes Tai yn cefnogi'r broses o gymhwyso'r grant Lwfans Atgyweiriadau Mawr yn 2023/24, yr oedd disgwyl iddo fod tua £2.773m.

Cafwyd cynnydd sylweddol mewn costau yn 2023/24 oherwydd ariannu cyfalaf o ganlyniad i fenthycia ychwanegol, cynnydd mewn cyfraddau llog, cynnydd mewn staffio (ymgyngorwyr ariannol a swyddogion incwm i gefnogi tenantiaid gyda chymorth a chynngor ariannol) a chostau atgyweirio uwch oherwydd cynnydd mewn costau cyflenwi a'r atodlen gyfraddau.

Tynnodd yr Arweinydd rai diwygiadau i'r adroddiad at sylw Aelodau'r Cabinet fel diweddariad ers i'r adroddiad gael ei lunio.

- Cyfeiriodd paragraff 2.26 yr adroddiad at gynigion cyllideb terfynol y Cabinet sy'n cael eu hystyried gan y Cyngor mewn cyfarfod ar 11 Ionawr

No.

2023. Eglurodd yr Arweinydd ei fod yn cyfeirio at Gynigion Cyllideb Terfynol y CRT.

- Cyfeiriodd paragraff 2.27 yr adroddiad at y camau ar ôl ystyried adroddiad y Cabinet sydd i fod i gael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Cabinet ar 19 Ionawr 2023. Nid oedd y dyddiad 27 Chwefror wedi'i bennu eto ac roedd cyfarfod y Cyngor Llawn wedi'i drefnu ar gyfer 6 Mawrth 2023 yn hytrach nag ar gyfer 7 Mawrth fel y nodwyd yn yr adroddiad.
- Cyfeiriodd paragraff 2.7 yr adroddiad at gronfa wrth gefn £1.025m y CRT fel ar 31 Mawrth 2024, a ddylai fod wedi dweud 2025.
- Paragraff 5.2 Gwariant cyfalaf o'r cyfrif refeniw yn 2023/24 oedd £17.187m nid £16.762m.
- Paragraff 5.3 Cronfa wrth gefn amcanol oedd £1.025m nid £1.051m.
- Ni chyfeiriodd paragraff 2.25 at Wasanaeth Larwm Cymunedol y Fro (GLCF) gan nad oedd ffigurau wedi bod ar gael o'r blaen ond byddai'n cael ei gynnwys yng nghyfeiriad y Cyngor. Tâl oedd hwn a oedd yn rhan o'r rhent cynhwysol ond roedd modd ei nodi ar wahân. Roedd y taliadau ar gyfer Monitro Larymau a Chynnal a Chadw Larymau i'w gweld ar wahân bellach. Cynigiwyd pennu'r tâl Monitro ar £1.38 (wedi'i ariannu gan y Grant Cymorth Tai i ddefnyddwyr gwasanaeth cymwys) a'r tâl Cynnal a Chadw ar £3.50 yr wythnos (yn daladwy gan y tenant). Roedd y tâl Monitro yn cyfateb i £1.33 yr wythnos ar sail 52 wythnos.

| Sail 50 Wythnos | Taliadau Gwirioneddol 22/23 | Taliadau Arfaethedig 23/24 | |
|---|------------------------------------|-----------------------------------|------------|
| GLCF: | | | |
| Cynnal a Chadw Larymau | £2.20 | £3.50 | yr wythnos |
| Monitro Larymau (52 wythnos £1.24 yr wythnos) | £1.29 | £1.38 | yr wythnos |

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

BENDERFYNU -

(1) Cymeradwyo cynigion cyllideb terfynol y CRT ar gyfer 2023/24 fel y nodir isod:

| | 2023/24 Cyllideb Arfaethedig Derfynol |
|------------------------------------|--|
| | £000 |
| Gwariant | |
| Goruchwylio a Rheoli - Cyffredinol | 4,366 |
| Goruchwylio a Rheoli - Arbennig | 1,604 |

No.

| | |
|--|-----------------|
| Atgyweiriadau a Gwaith Cynnal a Chadw | 4,681 |
| Costau Ariannu Cyfalaf | 5,327 |
| Rhent, Ardrethi a Threthi a Thaliadau Eraill | 221 |
| Cynnydd mewn Darpariaeth Dyledion Drwg | 948 |
| Gwariant Cyfalaf o'r Cyfrif Refeniw | 17,187 |
| | 34,334 |
| Incwm | |
| Rhenti Anheddau | (22,453) |
| Rhenti Eiddo nad ydynt yn Anheddau | (173) |
| Llog | (156) |
| Taliadau Gwasanaethau a Chyfleusterau | (501) |
| Cyfraniad tuag at wariant | (74) |
| Incwm o Grantiau | (205) |
| | (23,662) |
| (Gwarged)/Diffyg am y flwyddyn | 10,672 |
| Balans ar 1 Ebrill 2023 a Ddygwyd Ymlaen | (11,621) |
| Balans ar 31 Mawrth 2024 a Ddygwyd Ymlaen | (949) |

(2) Bod y Cabinet yn argymhell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnydd cyfartalog o 5.5% mewn rhent, fel y nodir ym mharagraff 2.17 yr adroddiad.

(3) Bod y Cabinet yn argymhell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnydd a awgrymwyd ar gyfer gwasanaethau eraill fel y nodir yn y tabl isod ac ym mharagraffau 2.18 i 2.25 yr adroddiad.

| Sail 50 Wythnos | Taliadau Gwirionedd ol 2022/23 | Taliadau Arfaethedig 2023/24 | |
|---|--------------------------------|------------------------------|------------|
| | £ | £ | |
| Cynnal a Chadw'r Tir | 1.35 | 1.47 | yr wythnos |
| Glanhau Ardaloedd Cymunedol | 2.57 | 2.75 | yr wythnos |
| Goleuo Ardaloedd Cymunedol | 1.68 | 1.85 | yr wythnos |
| Cyfleusterau Golchi Dillad | 0.38 | 0.41 | yr wythnos |
| Glanhau Ffenestri | 0.18 | 0.16 | yr wythnos |
| Cynnal a Chadw Lifftau | 0.53 | 0.99 | yr wythnos |
| Mynediad Drws | 0.25 | 0.50 | yr wythnos |
| Intercom | 0.84 | 0.94 | yr wythnos |
| Teledu cylch cyfyng | 0.94 | 0.95 | yr wythnos |
| Offer Trin Carthffosiaeth | 399.86 | 426.66 | y flwyddyn |
| Carthbyllau | 386.00 | 411.50 | y flwyddyn |
| GLCF: | | | |
| Cynnal a Chadw Larymau | £2.20 | £3.50 | yr wythnos |
| Monitro Larymau (52 wythnos £1.24 yr wythnos) | £1.29 | £1.38 | yr wythnos |

(4) BOD y Cabinet yn argymhell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r holl newidiadau i renti a thaliadau gwasanaeth o 1 Ebrill 2023, gydag wythnos gyntaf mis Ebrill yn wythnos dim rhent a bod hysbysiadau o'r cynyddiadau'n cael eu hanfon at

No.

denantiaid 2 fis cyn i'r taliadau newydd ddod i rym yn unol â Deddf Rhentu Cartrefi Cymru.

(6) Cymeradwyo defnyddio'r weithdrefn benderfynu frys fel y'i nodir yn Adran 15.14 Cyfansoddiad y Cyngor er mwyn i Gynigion Cyllideb Terfynol y CRT ar gyfer 2023/24 gael eu cyfeirio at y Cyngor Llawn ar 11 Ionawr 2023.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Er mwyn hwyluso gwaith monitro'r gyllideb a dangos cyllideb fantoledig gydag arian yn cael ei dynnu o gronfeydd wrth gefn y CRT i fantoli'r gronfa wrth gefn â Chynllun Busnes Tai 2023/24.

(2) Er mwyn pennu lefelau rhent newydd o fewn canllawiau penodedig Llywodraeth Cymru a bodloni'r terfyn amser ar gyfer hysbysu tenantiaid fel sy'n ofynnol yn ôl statud.

(3) Er mwyn cymeradwyo taliadau a bodloni'r terfyn amser ar gyfer hysbysu tenantiaid fel sy'n ofynnol yn ôl statud.

(4) Er mwyn cymeradwyo taliadau, pennu lefelau rhent newydd o fewn canllawiau penodedig Llywodraeth Cymru a bodloni'r terfyn amser ar gyfer hysbysu tenantiaid fel sy'n ofynnol yn ôl statud.

(5) Er mwyn caniatáu i'r adroddiad gael ei gyfeirio at y Cyngor Llawn ar 11 Ionawr 2023 i gydymffurfio â Deddf Rhentu Cartrefi Cymru.

C177 CYNNIG I DROSGLWYDDO CANOLFAN ADNODDAU ARBENIGOL YN YSGOL GYNRADD LLANDOCHAU I YSGOL Y DDRAIG (ACG) (CRAFFU - DYSGU A DIWYLLIANT

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi gwybod i'r Cabinet am ganlyniad yr hysbysiad statudol i adleoli'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Llandochau i Ysgol y Ddraig.

Dywedodd y Cynghorydd Birch, drwy gefnogi disgyblion yn eu hysgolion prif ffrwd, roedd modd lledaenu arfer da yn fwy effeithlon. Cytunodd yr Arweinydd a'r Cynghorydd John ill dau fod y pontio wedi gweithio'n eithriadol o dda a bod y disgyblion a'r staff wedi croesawu'r newidiadau.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

BENDERFYNU -

(1) Cymeradwyo'r adroddiad ar yr ymgynghoriad (Atodiad A), yr adroddiad ar yr Ymateb i'r Ymgynghoriad (Atodiad C) ac atodiadau eraill a gynhwysir fel rhan

No.

o'r adroddiad, sy'n cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad D), Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned (Atodiad B), Hysbysiad Statudol (Atodiad E) ac Adroddiad Cryno ar y Cyfnod Gwrthwynebu (Atodiad F).

(2) Cymeradwyo gweithredu'r cynnig i wneud addasiadau rheoledig dan adran 2.3 Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 i adleoli'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol i Ysgol y Ddraig o fis Ionawr 2023.

(3) Awdurdodi defnyddio paragraff 15.14.2(ii) Cyfansoddiad y Cyngor (gweithdrefn benderfynu brys) er mwyn osgoi oedi diangen.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei hystyried gan y Cabinet wrth ddod i benderfyniad ynghylch a ddylid gweithredu'r cynnig.

(2) Ar ôl cwblhau cyfnod o rybudd statudol, roedd angen dod i benderfyniad ynghylch a ddylid gweithredu'r cynnig i sicrhau y gall y Ganolfan Adnoddau Arbenigol barhau i weithredu ym Mro Morgannwg mewn amgylchedd addysg fodern.

(3) Er mwyn sicrhau y gellid gweithredu'r cynnig ar 9 Ionawr 2023, ar ddechrau'r tymor ysgol. Roedd hyn yn ofyniad ar gyfer cynigion oedd yn ymwneud â materion staffio fel adleoli.